



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)  
[www.gov.wales](http://www.gov.wales)

## **Adroddiad Blynyddol Cynllun Gweithredu y Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid (IE) 2014-2015**

## Trosolwg

Cafodd y Cynllun Gweithredu IE 2010-15, a lansiwyd yn 2010, ei ddatblygu gyda phartneriaid y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ledled Cymru, gan adeiladu ar strategaeth gwreiddiol IE a lansiwyd yn 2004.

Mae'r Cynllun yn waith ar y cyd rhwng yr Adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Adran Addysg a Sgiliau. Mae hefyd wedi elwa ar gydweithredu gydag adrannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru a gyda phartneriaid, a bydd yn parhau i ddatblygu meysydd synergedd sydd wedi cael eu nodi.

Mae Cynllun Gweithredu IE yn ffocysu ar bobl ifanc a sut y maent yn cael eu tywys ar daith entrepreneuriaeth: gan gynyddu eu hymwybyddiaeth, datblygu eu sgiliau entrepreneuriaidd, sbarduno syniadau a darparu gwybodaeth a chefnogaeth ymarferol i'r rhai sy'n ceisio cychwyn busnes. Yn ogystal, mae'r Cynllun yn adnabod tair cynulleidfa strategol, sef: Addysg, Busnes a'r Gymuned; mae'r rhain i gyd yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi pobl ifanc.

Mae "Cymwys am Oes" gafodd ei lansio ym mis Hydref 2015 yn amlinellu adolygiad sylfaenol o drefniadau cwricwlwm ac asesu Cymru o'r cyfnod sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Mae un o'r pedwar prif "Bwrpas" sy'n cael eu cynnig yn y cwricwlwm newydd yn adnabod yr angen am gyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith. Bydd cyflwyno'r rhaglen Gwell Ymgysylltiad gan Gyflogwyr (EEE) hefyd yn ceisio gweithredu model ar gyfer partneriaethau cynaliadwy rhwng ysgolion uwchradd a chyflogwyr.

Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad o'r rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid oedd yn cael ei ddarparu gan Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad wedi hysbysu datblygu Gwasanaeth Entrepreneuriaeth Ifanc Busnes Cymru a gychwynnodd ar 1 Ionawr 2016. Caiff y gwasanaethau hyn eu cyllido drwy Raglen Weithredol ERDF ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i gefnogi darparu Entrepreneuriaeth rhwng 2015 a 2020 ac mae'n cyflwyno'r "Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth" i weithio gyda phartneriaid er mwyn gwella dealltwriaeth ac ymgysylltiad entrepreneuriaeth yng Nghymru.

Bydd rhaglen cyllido grant newydd i Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn ategu'r gwasanaethau ac yn cynyddu ymgysylltiad mewn entrepreneuriaeth yn y sector rhwng 2016 a 2018

Ym mis Ebrill 2015 cafodd Cymru ei dewis i ymuno â chyfadran enwog y Massachusetts Institute of Technology (MIT) ar ei raglen REAP (Rhoglen Cyflymu Entrepreneuriaeth Ranbarthol), sydd wedi'i chynllunio i helpu rhanbarthau i brysuro twf economaidd a chreu swyddi drwy entrepreneuriaeth wedi'i yrru gan arloesedd. Bydd REAP yn galluogi Cymru i ddatblygu strategaeth sy'n rhoi entrepreneuriaeth wedi'i yrru gan arloesedd yng nghalon y gyriant i greu swyddi a hybu'r economi a bydd hyn hysbysu cyfeiriad entrepreneuriaeth ieuenctid yn y dyfodol.

## Cyflawni'r Cynllun Gweithredu:

Mae cynnydd wedi bod ar draws y deg prif gam blaenoriaeth, a nodwyd o dan y tair thema cyflawni. Mae trosolwg o gynnydd rhwng 2010 a 2015 wedi'i ddarparu; yn amlygu'r prif gyflawniadau yn y cyfnodau 2014-15; yn myfyrio ar ddatblygiadau strategol a mentrau sy'n datblygu.

## Ymgysylltu: Hyrwyddo gwerth entrepreneuriaeth i greu cyfleoedd a datblygu pobl ifanc

### Cam 1:

**Lansio Syniadau Mawr Cymru fel ymgyrch i ymgysylltu â phobl ifanc a phartneriaid ac ennyn eu brwdfrydedd**

- Cafodd [www.BigIdeasWales.com](http://www.BigIdeasWales.com) / [www.SyniadauMawrCymru.com](http://www.SyniadauMawrCymru.com) ei lansio'n wreiddiol ym mis Tachwedd 2010. Yn 2014, cynhaliwyd arolwg o'r wefan gyda phobl ifanc a chafodd gwefan ar ei newydd wedd ei hail-lansio ym mis Gorffennaf 2015 ac mae bellach yn ffurfio rhan o wefan Busnes Cymru. Mae'r dyluniad newydd yn targedu pobl ifanc yn bennaf gan ddarparu gwybodaeth glir am gychwyn busnes drwy gydol eu taith. Mae'r wybodaeth yn anelu at gynyddu ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth; datblygu syniadau busnes a dealltwriaeth o egwyddorion busnes allweddol; nodi cyfleoedd i gymryd rhan ac arwain y rhai sydd â diddordeb tuag at gymorth ac arweiniad pellach sydd ar gael.
- Mae gwefan yr ymgyrch yn cynnwys arwyddbost at brif wasanaeth Busnes Cymru, gan integreiddio'r cynnwys sy'n berthnasol i bobl ifanc. Eleni mae'r safle hefyd wedi cyflwyno [Map](#) rhyngweithiol i gefnogi penderfyniadau pobl ifanc ar hyd y daith entrepreneuriaid gan eu cyfeirio at wybodaeth allweddol.
- Mae cyfathrebu wedi'i dargedu gyda phartneriaid a phobl ifanc wedi cynyddu'n sylweddol gyda sianelau cyfryngau cymdeithasol Syniadau Mawr Cymru yn darparu diweddariadau i dros 17,200 o ddilynwyr Facebook a 5,165 o ddilynwyr Twitter bob dydd. Cafodd yr ardal partneriaid ac aelodau ei dynnu oddi ar y wefan gan bod platfformau cyfryngau cymdeithasol yn darparu ateb mwy hyblyg i hyrwyddo gweithgareddau partneriaid gyda phobl ifanc.
- Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiad "Sgwrs Go lawn" ar gyfer pobl ifanc, rhieni, perchnogion busnes a phartneriaid ddydd Iau, 1 Hydref 2015 yn Stadiwm Liberty, Abertawe. Daeth dros 180 o bobl i'r digwyddiad oedd yn ceisio deall: gwerthoedd ac agweddau pobl ifanc tuag at entrepreneuriaeth; sut y gall eu haddysg gefnogi datblygiad sgiliau a myfyrio ar eu huchelgais ar gyfer busnes; a deall y rhwystrau all gyfyngu ar eu penderfyniad i gychwyn busnes. Bydd digwyddiad arall yn cael ei gynnal ddydd Iau 3 Mawrth a bydd canfyddiadau o'r ddau ddigwyddiad yn hysbysu datblygiad strategol yn y dyfodol.

## Cam 2:

**Cyflwyno gweithgareddau a digwyddiadau wedi'u targedu i ennyn diddordeb a chyfranogiad mewn entrepreneuriaeth, yn enwedig ymysg y rheini sy'n ddi-waith a/neu'n economaidd anweithgar.**

- Ym mis Medi 2012 cychwynnodd rhaglen tair blynedd o gyllid entrepreneuriaeth gan Lywodraeth Cymru i gefnogi 6 Canolfan AB/AU, a daeth i ben ym mis Rhagfyr 2015. Yn dilyn gwerthusiad y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid dyfarnwyd rhaglen newydd o gyllido grant sefydliadol i'r sector Addysg Bellach ac Addysg Uwch a bydd yn gweithredu o fis Ionawr 2016 hyd fis Rhagfyr 2018. Bydd y dyfarniadau newydd yn ffocysu ar feithrin dawn entrepreneuraidd myfyrwyr ac yn galluogi busnesau a phartneriaid i ymgysylltu â darpariaeth.

Mae Hyrwyddwyr Entrepreneuriaeth yn dal i'w cael ym mhob sefydliad Addysg Bellach (AB) ac Addysg Uwch (AU) yng Nghymru, yn ennyn diddordeb a chyfranogiad mewn entrepreneuriaeth a sicrhau cyfleoedd dysgu entrepreneuraidd. Mae pob sefydliad yn darparu rhaglen o weithgareddau i gyflwyno menter drwy sefydlu a glas fyfyrwyr; datblygu syniadau a chyfleoedd profi masnach; a gweithdai i gefnogi pobl ifanc sy'n ystyried cychwyn busnes.

- Mae 'Syniadau Mawr Cymru' eleni wedi ymgysylltu â 53,480 o bobl ifanc mewn gweithdai ysbrydoli dan arweiniad Modelau Rôl busnes ar draws Ysgolion, Colegau a Phrifysgolion. Mae 2,481 o bobl ifanc eraill wedi cael eu hymgysylltu drwy grwpiau ieuenctid a chymunedol y tu allan i addysg. Yn ystod cyfnod 5 mlynedd Cynllun Gweithredu IE mae Modelau Rôl wedi cyflwyno'r gweithdai ysbrydoli hyn i dros chwarter miliwn o bobl ifanc.
- Cynhaliwyd yr Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-Eang flynyddol rhwng 16 a 22 Tachwedd 2015 gan ddarparu 1,588 o ddigwyddiadau ar draws y DU. Cynhaliwyd 241 o ddigwyddiadau yng Nghymru.. Bu 17.6k o unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod yr wythnos yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru yn cael ei gyfrif yn ail brif bartner yn y DU.
- Mae gweithwyr ieuenctid ledled Cymru yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n gyfannol, gan weithio gyda hwy i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i'w galluogi i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a'u safle mewn cymdeithas i gyrraedd eu llawn botensial. Mae gweithwyr ieuenctid yn aml yn cefnogi datblygiad entrepreneuriaeth pobl ifanc. I gydnabod y cyfraniad hwn, cafodd categori Prosiect Entrepreneuriaeth Ieuenctid eithriadol ei gynnwys yng Ngwobrau Rhagoriaeth 2014 Gwaith Ieuenctid Cymru.
- Mae'r rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith yn cynnwys darparu Hyfforddeiaethau a Phrentisiaethau. Mae darparwyr yr elfen Hyfforddeiaethau (ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed) wedi ymgorffori egwyddorion y Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid (IE) yn eu darpariaeth.
- Mae'r rhaglen Hyfforddeiaethau yn ymgorffori tri llinyn darpariaeth: Ymgysylltiad; Lefel 1 a Phont i Gyflogaeth. Mae darparwyr Hyfforddeiaethau yn chwilio am

gyfleoedd i annog pobl ifanc i ystyried hunan-gyflogaeth fel opsiwn ac mae cymhwyster menter achrededig wedi ei adeiladu i mewn i'r rhaglen fel opsiwn. Rhoddwyd deunyddiau IE i ddarparwyr i ddysgu sgiliau entrepreneuriaeth fel modiwlau annibynnol.

Cafodd pecynnau adnoddau oedd yn cynnwys gwybodaeth ar ddatblygu sgiliau menter eu dosbarthu i'r 25 sefydliad sy'n cyflwyno'r rhaglen DSW ar gyfer Llywodraeth Cymru.

- Mae'r Adran Polisi Sgiliau ac Ymgysylltiad Ieuenctid yn ffocysu ei adnoddau ar yr ymyriadau mwyaf llwyddiannus sydd wedi eu cynllunio i helpu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth. Mae'r [Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid](#) a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013 yn galw am agwedd integredig gan bob sefydliad sy'n cymryd rhan mewn cyflwyno gweithgareddau i bobl ifanc, gan ffocysu ar anghenion yr unigolyn. Rhoddir y cyfrifoldeb i awdurdodau lleol i ddarparu a chydlynu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar unigolion i helpu eu cynnydd drwy addysg a hyfforddiant at gyflogaeth. Mae pob awdurdod lleol yn gweithredu eu cynlluniau gweithredu ar hyn o bryd gyda chefnogaeth ac arweiniad gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

Sefydlodd y Fframwaith hefyd gynnis newydd i bobl ifanc: "Gwarant Ieuenctid", sef cael cynnis, derbyn a chychwyn lleoliad addas mewn addysg neu hyfforddiant ar gyfer person ifanc sy'n cymryd ei gam cyntaf o addysg orfodol yn 16 oed. Nod y warant yw darparu llwybr dilyniant clir ar gyfer pob person ifanc, yn gysylltiedig â gwybodaeth, cyngor ac arweiniad effeithiol i'w helpu i wneud dewis mwy gwybodus, ac i gefnogi eu dilyniant o'r ysgol i mewn i ddarpariaeth ôl-16 cynaliadwy.

## Cam 3:

### Annog busnesau i ymgysylltu a phobl ifanc a'r byd academiaidd

- Mae 364 o entrepreneuriaid yn cymryd rhan yn y Rhaglen Modelau Rôl i ysgogi ac ysbrydoli pobl ifanc. Yn ystod y flwyddyn, rhyngddynt fe ddarparwyd dros 2,516 o weithdai ysbrydoli ganddynt mewn Ysgolion, Colegau a Phrifysgolion. Targedodd 189 o weithdai ysbrydoli eraill bobl ifanc y tu allan i addysg gan weithio gydag amrywiaeth o sefydliadau yn cynnwys timau troseddau ieuenctid, grwpiau cymunedol a phartneriaethau ieuenctid. Yn ystod y flwyddyn hon mae 31 o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn cyfleoedd cysgodi gydag entrepreneuriaid; roedd hyn yn cynnwys gweithio gydag entrepreneuriaid creadigol wedi'u lleoli o fewn Canolfan Arloesi Menter Cymru.
- Mae gwefan Arbenigedd Cymru [www.expertisewales.com](http://www.expertisewales.com) yn parhau i ddatblygu a bellach mae ganddi 1,049 o gofnodion academiaidd yn y gronfa ddata. Gall Arbenigedd Cymru helpu busnesau i greu a datblygu nwyddau, gwasanaethau a phrosesau newydd drwy eu rhoi mewn cysylltiad â'r arbenigedd academiaidd cywir yng Nghymru. Mae'r adnodd ar-lein ar gyfer gyrru cydweithredu ac arloesedd yng Nghymru bellach wedi'i integreiddio ar wefan Busnes Cymru. Gall

hefyd helpu i fynd at amrywiaeth o adnoddau Cefnogaeth a Chyllido i helpu gyda'r camau pwysig hyn mewn prosiectau; yn cynnwys cefnogaeth gan ein tîm o Arbenigwyr Arloesedd hynod brofiadol sydd wedi eu lleoli ledled Cymru. Mae'n galluogi sefydliadau i hybu eu harbenigedd a'u cyfleusterau; i wneud cais am gyfleoedd i gydweithredu gyda busnesau, neu academia i academia; a hefyd i gynnig technolegau sydd ar gael i'w defnyddio'n fasnachol.

- Mae'r Rhwydwaith Menter Prifysgolion ar gyfer Gweithgynhyrchu Uwch (UEN) wedi'i ymgorffori yng ngwaith Canolfan Ranbarthol AB/AU Gogledd Ddwyrain Cymru. Roedd tri phrosiect yn canolbwyntio ar hyfforddiant, peirianeg a chynaliadwyedd.
- Yn 2015 dyfarnodd Llywodraeth Cymru gontract i Busnes yn y Gymuned (BITC) i weithredu model ar gyfer partneriaethau cynaliadwy rhwng ysgolion uwchradd a chyflogwyr. Bydd y prosiect Gwell Ymgysylltiad gan Gyflogwyr yn adeiladu ar raglen llwyddiannus 'Dosbarth Busnes' BITC, a chaiff ei gyflwyno mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru. Unwaith y bydd y partneriaethau wedi cael eu sefydlu, byddant yn cytuno ar gynllun gweithredu yn seiliedig ar y llinynnau canlynol: arweinyddiaeth a llywodraethiant; cwricwlwm; menter a chyflogadwyedd; a materion ehangach. Mae targed o 60 partneriaeth wedi ei osod ar gyfer blwyddyn academaidd 2015-16.
- Mae amrywiaeth o weithgareddau entrepreneuriaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan nifer o sefydliadau sector preifat a thrydydd sector i gefnogi addysgwyr a phartneriaid i ddatblygu entrepreneuriaeth ieuencid. Ymysg y rhain y mae: [Microtyco](#) sy'n darparu cystadleuaeth yn para mis sy'n galluogi cyfranogwyr i ymarfer a dysgu egwyddorion busnes sylfaenol mewn amgylchedd 'micro'; [Intofilm](#) yn defnyddio ffilm i gefnogi datblygiad personol yn y sector creadigol; [Speakers4Schools](#) i gyflwyno arweinwyr busnes ysbrydoledig i addysg.

Mae rhaglen Inspiring Enterprise yr RBS yn fenter ar draws y DU sy'n gweithio gyda myfyrwyr mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion i ganfod, datblygu a datgloi eu doniau; ac i ddatblygu eu sgiliau boed hynny'n golygu gweithio gyda rhywun arall neu sefydlu eu busnes eu hunain. Mae rhaglen Inspiring Enterprise yr RBS gafodd ei lansio yn 2012, wedi cefnogi 93,210 o bobl ifanc ar draws y DU i archwilio menter, i ddatblygu eu sgiliau a'u camau cychwyn busnes, beth bynnag eu cefndir.

Yng Nghymru mae rhaglen Inspiring Enterprise yr RBS wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid IE a chanolfannau rhanbarthol AB ac AU mewn amryw o raglenni megis Trading Places, Dreigiau Busnes Ifanc, Y Criw Mentrus, Bwt Camp Syniadau Mawr Cymru a gwobrau Making Business Happen.



## Ymgysylltu:

Cam	Allbynnau	Targedau 5 mlynedd	Cynnydd Medi 2010 – Awst 2015
1	Sesiynau ar safleoedd Syniadau Mawr	50,000 sesiwn	114,604
1	Defnyddwyr offer ar-lein i brofi sgiliau entrepreneuriaidd	12,500 defnydd	26,343
1	Cofrestru sefydliadau partner ar Syniadau Mawr	150	104 *
2	Cyfranogwyr y tu allan i addysg yn cymryd rhan mewn gweithgareddau codi ymwybyddiaeth	300/ 4,000**	16/ 8764
2	Gweithgareddau cysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc	4,000	16,641
2	Cyfranogwyr mewn ysgolion, AB ac AU yn cymryd rhan mewn sesiynau codi ymwybyddiaeth	235,000	253,820 DRM *** AB/AU
3	Cymorth i entrepreneuriaid ymgysylltu â phobl ifanc	250	271
3	Prosiectau cydweithredol o dan arweiniad busnesau mewn prifysgolion	3 prosiect UEN	3
<b>Effaith erbyn 2015</b>			
Pobl ifanc yn ymwybodol o hunangyflogaeth fel opsiwn gyrfa		cynnydd o 5% ar linell sylfaen 2013 sef 75%	11-15 oed 69% 16-18 oed 88%
Pobl ifanc yn ystyried bod yn fos ar eu hunain		Cynnydd o 50% i 55%	56%
<b>Cerrig Milltir Allweddol</b>			
Lansio Syniadau Mawr Cymru	Hydref 2010	Lansiwyd Hydref 2010	
Lansio porth Arbenigedd Cymru	Hydref 2010	Lansiwyd Chwefror 2011. Ymgorfforwyd yng ngwefan Busnes Cymru yn 2015	
Datblygu Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc	Medi 2010	Cyhoeddwyd cynllun gweithredu Ionawr 2011. Gweithredu'r Fframwaith ar gyfer Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid 2012-15.	
Sefydlu Rhwydwaith Menter Prifysgolion	Ebrill 2011	Cynnwys UEN ym mhrosiectau Canolfan AB/AU Rhanbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru.	
Ehangu'r Rhwydwaith Modelau Rôl Dynamo	Medi 2011	Ymgorfforwyd yng Ngwasanaethau Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru.	

\* Nodwedd wedi'i ddileu fel rhan o adnewyddiad y Wefan. Ymgysylltiad partneriaid wedi cynyddu drwy'r cyfryngau cymdeithasol

\*\* Peilot Porth Ieuenctid heb ei gyflwyno. Targed amgen o 4000 wedi'i gyflwyno i adlewyrchu pobl ifanc y tu allan i addysg yn derbyn cyflwyniadau Model Rôl

\*\*\* 253,820 yn cyfeirio at weithdai modelau rôl ar draws Ysgolion, Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Codi ymwybyddiaeth 174,415 drwy gyfrwng pencampwyr Menter.

## **Grymuso: Rhoi cyfleoedd dysgu entrepreneuriaid i bobl ifanc**

Ym mis Mawrth 2014 cynhaliodd yr Athro Graham Donaldson arolwg sylfaenol o'r trefniadau cwricwlwm ac asesu o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Mae "Cymwys am Oes" gafodd ei lansio ym mis Hydref 2015 yn nodi meddylfryd mentrus fel un o bedwar brif "pwrpas" y cwricwlwm newydd. Mae hefyd yn adnabod yr angen am gyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith sy'n:

- cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynnyrch
- meddwl yn greadigol i ail-fynegi a datrys problemau
- adnabod a bachu ar gyfleoedd
- cymryd risgiau pwyllog
- arwain a chwarae rolau gwahanol mewn timoedd yn effeithiol ac yn gyfrifol
- mynegi syniadau ac emosiynau drwy gyfryngau gwahanol
- rhoi o'u hegni a'u sgiliau er mwyn i bobl eraill elwa

### **Cam 4:**

#### **Darparu canllawiau ar-lein i Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach ac addysgu entrepreneuriaeth a'i datblygu**

- Cyflwynwyd ymagwedd ddiwygiedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ymarferwyr trwy sefydlu'r broses Ymarfer, Adolygu a Datblygu. Mae hyn yn integreiddio DPP gyda safonau proffesiynol a rheoli perfformiad fel bod gweithgareddau DPP mewn ymateb i flaenoriaethau ysgolion gyda chynhwysiant unigol mewn DPP yn cael ei nodi trwy reoli perfformiad. Cyflwynwyd amrywiaeth o fesurau yn sail i'r ymagwedd hon gan gynnwys safonau proffesiynol newydd, rheoliadau rheolaeth perfformiad diwygiedig, trefniadau sefydlu newydd a lansio'r rhaglen Meistri ar gyfer sydd newydd ddod yn gymwys.

Darparwyd cefnogaeth i weithgareddau DPP trwy hybu Cymunedau Dysgu Proffesiynol a darparu adnoddau o ansawdd uchel i godi ymwybyddiaeth a chefnogi ymchwil a datblygiad ymarferwyr. Y ddarpariaeth gyffredinol hon sy'n gosod fframwaith ble gellir darparu deunyddiau penodol i bwnc, megis y gellir darparu'r rhai sy'n hyrwyddo entrepreneuriaeth i ymarferwyr i gefnogi anghenion datblygu a nodwyd.

- Mewn ymateb i'r Adolygiad o Gymwysterau, mae Bagloriaeth Cymru wedi cael ei hadolygu i'w haddysgu gyntaf o 2015 a nodwedd bwysig o'r adolygiadau hyn yw ymagwedd Her tuag at ddatblygu sgiliau. Bydd hyn yn cynnwys y cyfle i ddysgwyr ymgymryd â phrosiect unigol gyda dewis o dri thema: Her Dinasyddiaeth Fyd-Eang; Her Gymunedol; neu'r Her Menter a Chyflogadwyedd.
- Drwy'r Her Menter a Chyflogadwyedd bydd ffocws a phwyslais cryfach ar sgiliau entrepreneuriaid. Mae'r her hon yn galw ar ddysgwyr i ddangos sgiliau entrepreneuriaid sydd eu hangen gan gyflogwyr, fydd yn eu tro yn gwella cyflogadwyedd. Bydd dysgwyr yn ymgymryd â heriau sydd wedi eu cynllunio gan



gyflogwyr neu sefydliadau cenedlaethol eraill. Mae adnoddau i gefnogi'r Heriau ar gael ar y plattform ar-lein [HWB](#).

- Bwriad y cymwysterau Sgiliau Hanfodol yw asesu'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer dysgu llwyddiannus, cyflogaeth a bywyd, yn cynnwys: Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol, Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol, Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol a Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol sy'n cynnwys Meddwl Beirniadol a Datrys Problemau; Cynllunio a Threfnu; Creadigrwydd ac Arloesedd; Effeithiolrwydd Personol. Mae'r meysydd sgiliau hyn yn ymochri â model sgil Entrepreneuriaeth ACRO a gyflwynwyd drwy Gynllun Gweithredu IE.
- Bu Canolfan DPP Entrepreneuriaeth leuenctid yn gweithio gyda 22 sefydliad Addysg Uwch ac Addysg Bellach i ddatblygu addysg menter ac entrepreneuriaeth. Mae Fframwaith DPP wedi cael ei ddatblygu, canllaw i addysgwyr, rheolwyr ac arweinwyr entrepreneuriaid i wella arferion gwaith ac i'w ledaenu drwy'r Canolfannau Rhanbarthol AU-AB.

Yn ystod y flwyddyn cafodd [Menter Syniadau Mawr Cymru ac Adnoddau Entrepreneuriaeth](#) ar gyfer addysgwyr eu hadolygu a'u hunioni â'r Her Menter a Chyflogadwyedd a chânt eu hybu drwy Heriau Bagloriaeth Cymru ar HWB.

- Daeth cyllido CCAUC ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Menter i ben yn 2015. Cafodd y prosiect (dan arweiniad Prifysgol De Cymru mewn cydweithrediad â'r holl Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru) ei unioni â gweithgareddau oedd yn cael eu cefnogi drwy raglen Canolfan DPP IE. Un o amcanion y prosiect oedd datblygu cyfres o adnoddau menter ac entrepreneuriaeth yn berthnasol i staff AU i ffurfio pecyn cymorth fyddai'n helpu i sefydlu menter ac entrepreneuriaeth i fod yn rhan o gwricwla prifysgolion.

Mae etifeddiaeth glir y prosiect, y [Pecyn Cymorth Gwella'r Cwricwlwm](#) bellach wedi cael ei lansio fel adnodd ar-lein sy'n dod â banc o ddeunydd hawdd cael gafael arno at ei gilydd i gynnig ysbrydoliaeth a chefnogaeth i staff wrth iddynt ystyried defnyddio dulliau newydd o fewn y cwricwlwm i ymestyn gwybodaeth o bynciau, datblygu hyder ac adeiladu sgiliau gyda dysgwyr. Nod y pecyn cymorth yw cefnogi staff addysgu academaidd drwy ganllawiau addysgu pwnc benodol ac enghreifftiau achos.

- Mae CCAUC yn parhau i hwyluso arfer da mewn menter ac entrepreneuriaeth drwy ein cynllunio strategol a'n proses ymgysylltu. Ym mis Mai 2015 trefnodd CCAUC ddigwyddiad 'Cipolwg ar Gyflogadwyedd: Sut Mae Prifysgolion Cymru'n Hogi Sgiliau Graddedigion', gan gyhoeddi e-ddogfen o'r un enw. Cafodd amrywiaeth o arferion da mewn perthynas ag entrepreneuriaeth a menter eu cynnwys yn y digwyddiad ac yn y [cyhoeddiad](#).

## Cam 5:

### Gwneud y gorau o'r cyfleoedd dysgu drwy brofiad sydd ar gael i bobl ifanc ymchwilio i entrepreneuriaeth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol

- Yn 2013/14 eglurodd y cylch gwaith ar gyfer Gyrfa Cymru y disgwyliadau mewn perthynas ag entrepreneuriaeth ieuencid. Gofynnir i Gyrfa Cymru gyfeirio ei ymdrechion tuag at ddatblygu gallu ysgolion i gyflwyno Cysylltiadau Busnes Addysg (EBL) a gweithgareddau menter i gefnogi fframwaith cwricwlwm Gyrfaoedd a Byd Gwaith a Bagloriaeth Cymru.
- Elusen addysg menter ar draws y DU yw Menter yr Ifanc sy'n helpu pobl ifanc i wireddu eu potensial y tu hwnt i addysg, gan rymuso cenhedlaeth i ddysgu, i weithio ac i fyw drwy gyflwyno amrywiaeth o raglenni ac adnoddau cyflogadwyedd ac addysg ariannol. Yn ystod y flwyddyn academiaidd 2014-15 cafodd dros 50 o gwmnïau myfyrwyr eu sefydlu dan y Rhaglen Cwmnïau gyda phobl ifanc rhwng 15 a 19 oed yn sefydlu a rhedeg busnesau go iawn am flwyddyn dan arweiniad gwirfoddolwr busnes. Fe gawson nhw brofiad ymarferol o lawenydd a pheryglon creu menter sy'n gweithio. Drwy hwn a hefyd drwy raglenni YE megis Fiver, Tenner a Masterglass, bu YE yn gweithio gyda 7,327 o bobl ifanc ledled Cymru, gan ddatblygu eu sgiliau, eu hyder a hefyd eu gwybodaeth o brif sectorau diwydiant.
- Lansiodd Llywodraeth Cymru gystadleuaeth Genedlaethol 'Y Criw Mentrus' ar gyfer plant ysgol gynradd yn 2013. Yn 2015, aeth 54 o ysgolion ymlaen i arddangos eu cyflawniadau busnes ac i ddangos eu sgiliau entrepreneuriaidd mewn 4 rownd derfynol Ranbarthol ac roedd 16 o ysgolion yn cael eu cynrychioli yn y Rownd Derfynol Genedlaethol. Mae cymeriadau arch-arwr y gystadleuaeth yn cynrychioli model ACRO IE i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r sgiliau angenrheidiol, gydag adnoddau ar gael i ysgolion i gefnogi dysgu. Roedd y gystadleuaeth yn annog cyfranogiad gan y gymuned fusnes.
- Nod y chwe Chanolfan Entrepreneuriaeth Rhanbarthol AB/AU yw ysgogi diddordeb a chyfranogiad mewn entrepreneuriaeth. Mae'r canolfannau wedi gwella cydlynad ar lefel sefydliadol a rhanbarthol, gan weithio gyda chymuned busnes ehangach ac awdurdodau lleol i ddarparu help i bobl ifanc gymryd y camau nesaf tuag at entrepreneuriaeth.

Eleni, fel rhan o raglen y Canolfannau o brofiadau ymarferol, maent gyda'i gilydd wedi ymgysylltu â dros 45,000 o fyfyrwyr fu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau tiwtorial, gweithgareddau wythnosau menter a digwyddiadau hyrwyddo wedi eu rhedeg gan fyfyrwyr intern. Ar ben hyn, bu 13,992 yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu y tu allan i'r cwricwlwm i ddatblygu eu sgiliau a'u hagweddau entrepreneuriaidd.

- Cynhaliodd pob coleg Addysg Bellach yng Nghymru gystadleuaeth fewnol i ganfod tîm o fyfyrwyr i gynrychioli'r sefydliad yn rownd derfynol Cymru o'r Her Entrepreneuriaeth Fyd-Eang 24 awr (GEC) ym mis Mawrth 2015. Coleg Cambria oedd yn fuddugol, ac ym mis Mehefin 2015 aeth y tîm ymlaen i gynrychioli Cymru gan ennill yr Her Fyd-Eang oedd yn cynnwys 26 o dimau rhyngwladol.

- Mae partneriaethau lleol a rhanbarthol ar draws Cymru yn parhau i ffynnu ac i annog entrepreneuriaeth. Arweiniodd Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol y De Orllewin y Dreigiau Bach ar gyfer ysgolion Cynradd a'r Dreigiau Busnes Ifanc lle bu 4,000 o ddisgyblion yn cystadlu, o Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.
- Daeth y prosiect Llwyddo'n Lleol i ben ar 31 Mawrth 2015. Cyngor Sir Gwynedd oedd prif noddwr y prosiect mewn partneriaeth â Chynghorau Sir Môn, Conwy a Dinbych. Llwyddodd y prosiect i gynnig cefnogaeth i 12,462 o bobl ifanc rhwng 11 a 19 oed i greu diwylliant o fenter drwy ddatblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth a hunan-gyflogaeth yn ystod oes y prosiect.
- Mae rhwydwaith Entrepreneuriaeth Busnes Sir y Fflint (BEN) wedi'i sefydlu gan bartneriaid rhanbarthol allweddol i hyrwyddo entrepreneuriaeth ieuentid yn Sir y Fflint ac mae ganddo 84 o aelodau. Mae BEN wedi cynnal 28 o weithdai Clwb Menter eleni; wedi trefnu digwyddiadau Ffau y Ddraig ; ac wedi cefnogi cychwyn saith busnes. Mae BEN Wrecsam gafodd ei lansio ym mis Ionawr 2014 hefyd wedi cynnal digwyddiadau entrepreneuriaeth a 26 o gyfarfodydd clwb.
- Mae Parthau Twf Lleol wedi cael eu sefydlu ym Mhowys a Dyffryn Teifi. Mae'r ddau ranbarth wedi gosod allan eu dyheadau o ran annog entrepreneuriaeth ac mae pencampwr tref wedi cael ei benodi yn Llandrindod sy'n gweithio'n agos gydag addysgwyr a phobl ifanc.

## **Cam 6:**

### **Hyrwyddo rhagoriaeth mewn dysgu entrepreneuraidd ac arweiniad drwy rannu a meincnodi arfer da yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol**

- Cafodd swyddog o dîm Entrepreneuriaeth Ieuentid Llywodraeth Cymru ei secondio i Frwsel fel Arbenigwr Cenedlaethol o 2011 i 2015.
- Ym mis Tachwedd 2014 cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei Adroddiad Terfynol gan Weithgor Thematig y Comisiwn Ewropeaidd ar Addysg Entrepreneuraidd. Amcan yr Adroddiad yw cefnogi gwelliannau yn ansawdd a mynychder addysg entrepreneuriaeth ar draws Aelod Wladwriaethau'r UE, gan ddarparu cyfeiriad ar gyfer y camau nesaf yn agenda polisi addysg entrepreneuriaeth ar lefel UE a chenedlaethol. Mae'r Adroddiad yn nodi ffactorau llwyddiant polisi ar gyfer entrepreneuriaeth ac mae dull Cymru yn IE yn cael ei ddefnyddio fel enghraifft o arfer da o Ewrop.
- Gan weithio gyda'r Sefydliad Hyfforddi Ewropeaidd (ETF), cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymweliad astudio gydag arweinwyr polisi o Montenegro gyda'r bwriad o rannu arfer gorau a dangos sut mae polisi ar lefel genedlaethol yn troi'n ymarfer ar lefel ysgolion, ac yn enwedig sut mae pob chwaraewr yn ecosystem entrepreneuriaeth yn chwarae ei ran. O ganlyniad i'r hyn gafodd ei ddysgu drwy'r ymweliad aethpwyd ar ôl model partneriaeth cenedlaethol ar gyfer dysgu entrepreneuraidd gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng academia a Ffederasiwn Cyflogwyr Montenegro.

- Dyfarnwyd Gwobr y Frenhines am Hyrwyddo Menter i'r Athro Andy Penaluna, Cyfarwyddwr Ymchwil i Entrepreneuriaeth Creadigol ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae'n gyd-awdur papur polisi'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol dros Fusnesau Micro, "An Education System fit for an Entrepreneur". Mae'r adroddiad yn adnabod y rôl allweddol sydd gan entrepreneuriaid wrth yrru tuag at dwf, ac mae'n edrych ar effeithiolrwydd ein system addysg wrth gefnogi entrepreneuriaid - o 4 oed i 44 a thu hwnt.
- Dyfarnwyd Gwobr y Guardian am Entrepreneuriaeth 2015 i Ganolfan Entrepreneuriaeth Myfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd am ei waith yn helpu myfyrwyr, graddedigion a staff i ymgysylltu ag addysg entrepreneuriaid. Amlygodd panel dyfarniadau Rhwydwaith Addysg Uwch papur newydd y Guardian hanes staff y ganolfan yn darparu cefnogaeth, arweiniad ac arbenigedd i fyfyrwyr presennol yn ogystal â chyn-fyfyrwyr wrth iddynt gychwyn eu busnesau arloesol a llwyddiannus eu hunain.
- Canolbwynt y Ganolfan DPP mewn partneriaeth â'r Ganolfan Genedlaethol entrepreneuriaeth mewn Addysg (NCEE) oedd datblygu unigolion allweddol o fewn sefydliadau i ddylanwadu ar newid strategol. Yn 2014/15 bu pedwar person proffesiynol o AB/AU yn cymryd rhan yn yr International Entrepreneurship Educators Programme (IEEP); bu pedwar yn cymryd rhan yn yr Addysg Meistri mewn Menter ac Entrepreneuriaeth a bu 15 yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol gyda NESTA.
- Mae Cymru wedi cael ei dewis i ymuno â REAP MIT (Rhaglen Cyflymu Entrepreneuriaeth Ranbarthol). Mae REAP yn rhoi cyfle i weithio gyda MIT a'r gymuned REAP ehangach i ddatblygu strategaeth yn benodol i Gymru sy'n rhoi entrepreneuriaeth wedi'i yrru gan arloesedd yng nghalon y gyriant i greu swyddi a hybu'r economi.
- Mae partneriaeth yn elfen allweddol o'r Rhaglen gyda rhanbarthau penodol yn gweithio gyda'i gilydd i gryfhau eu meysydd o gryfderau cymharol, rhannu arfer gorau a phrofiad tra'n gweithio gyda ac yn elwa yn sgil gwybodaeth a phrofiad helaeth grŵp amrywiol o gyfadran MIT.

## Grymuso:

Cam	Allbynnau	Targedau 5 mlynedd	Cynnydd Medi 2010 – Awst 2015
4	Llunio canllawiau ar-lein ar gyfer ysgolion a cholegau	amh	Canllawiau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a HWB
5	Ysgolion a cholegau i roi cyfleoedd dysgu entrepreneuriaid i bobl ifanc mewn amrywiaeth o amgylcheddau	200,000	198,822
5	Pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgarwch entrepreneuriaid fel rhan o'r cwricwlwm	350,000*	155,077
5	Pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu drwy brofiad mewn AB ac AU	50,000	87,804
6	Cysylltiadau â phartneriaid rhyngwladol	4	8
<b>Effaith</b>			
	Fframwaith DPP i ymgorffori entrepreneuriaeth		Datblygu fframwaith DPP
	Meincnod yn erbyn targedau rhyngwladol y cytunir arnynt		Cyhoeddwyd Ebrill 2014
<b>Cerrig Milltir Allweddol</b>			
	Cynnal Cynhadledd Entrepreneuriaeth Ryngwladol	Medi 2010	Cynhaliwyd Medi 2010
	Dosbarthu canllawiau dilyniant entrepreneuriaid i ysgolion a sefydliadau addysg bellach	Ebrill 2012	Lansiwyd Rhagfyr 2012
	Hyfforddiant peilot ar gyfer athrawon/cynghorwyr		Wedi datblygu fframwaith DPP
	Ymgorffori entrepreneuriaeth mewn strategaethau, cynlluniau a rhaglenni ieuencid	Rhagfyr 2013	Lansiwyd y Strategaeth Genedlaethol Gwaith Ieuencid i Gymru.
	Cytuno ar set o feincnodau rhyngwladol a fframwaith monitro	Medi 2014	Grŵp Arbenigwyr Ewropeaidd ar ddata a dangosyddion a gynhyrwyd ar gyfer adroddiad gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2014.

\* Ffigurau targed yn seiliedig ar niferoedd cronus myfyrwyr gwirioneddol yn cael eu dangos fel dysgwyr unigol gymerodd ran ym Magloriaeth Cymru 2010-15.

## Ymbaratoi: Cefnogi pobl ifanc i greu a thyfu busnesau

### Cam 7:

#### Paratoi pobl ifanc i gymryd y camau nesaf tuag at ddechrau busnes

- Yn dilyn peilot yn 2012 mae Gwasanaethau Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno amrywiaeth o weithdai a digwyddiadau yn targedu entrepreneuriaid ifanc posibl rhwng mis Ionawr 2013 a mis Rhagfyr 2015. Eleni cafodd 176 o weithdai a digwyddiadau eu cynnal gyda 2,440 o bobl ifanc yn eu mynychu i ddatblygu eu syniadau busnes; ac i ddysgu am fusnes gan entrepreneuriaid a chael y gefnogaeth angenrheidiol iddynt gymryd y cam nesaf.
- Lansiodd Syniadau Mawr Cymru ym mis Hydref 2013 er mwyn adnabod prif entrepreneuriaid ifanc Cymru. Cynhaliwyd cyfres o glyweliadau rhanbarthol er mwyn adnabod entrepreneuriaid ifanc potensial i gymryd rhan mewn dau fwt camp dros 3 diwrnod. Mae 100 o entrepreneuriaid ifanc wedi cymryd rhan hyd yma. Mae ystafelloedd bwrdd rhanbarthol wedi cael eu sefydlu i ddilyn eu hynt ac i ddarparu cefnogaeth barhaus gan yr hyfforddwyr entrepreneuriaid. Cafwyd cefnogaeth ymarferol ar ffurf "addewidion" hefyd eu derbyn gan yr entrepreneuriaid.

Mae 10 o'r entrepreneuriaid ifanc yma sydd wedi cwblhau Her Syniadau Mawr Cymru wedi cael eu hyfforddi i fod yn Llysgenhadon ar gyfer ymgyrch Syniadau Mawr Cymru i hybu entrepreneuriaeth ymysg eu cyfoedion.

- Bydd y Gwasanaethau Entrepreneuriaeth Ieuenctid newydd sy'n cychwyn ym mis Ionawr 2016 yn darparu gwell ffocws ar feithrin pobl ifanc i gychwyn busnes, gan ddarparu rhaglen o ddigwyddiadau a gweithdai a chyflwyno cefnogaeth un i un pellach gydag ymgynghorwyr busnes ac entrepreneuriaid. Bydd y gwasanaethau yn adeiladu ar lwyddiant yr Her drwy ddarparu cyfleoedd i entrepreneuriaid ifanc i gymryd rhan. Mae'r gwasanaeth wedi'i ymochri â'r gwasanaeth Busnes Cymru er mwyn darparu dilyniant clir mewn cefnogaeth ar gyfer entrepreneuriaid ifanc.
- Mae Canolfannau Rhanbarthol Addysg Bellach ac Addysg Uwch wedi trefnu gweithdai penodol, wythnosau cychwyn busnes ar gyfer graddedigion, cystadlaethau cynllunio busnesau a chyfleoedd masnachu prawf ar gyfer 5,560 o fyfyrwyr i ddarparu amgylchedd iddynt archwilio syniadau entrepreneuriaid a chael profiad ymarferol o fenter.
- Daeth y Rhaglen GO Wales i ben ar 31 Rhagfyr 2014. Roedd yn cael ei arwain gan CCAUC a'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Rhwng 2009 a 2014, bu 148 o bobl ifanc yn cymryd rhan yn Academi Llawrydd GO Wales gyda 113 ohonynt yn ennill Dyfarniad y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar 'Gychwyn eich Menter eich hun'. Ar ben hyn, yn ystod yr un cyfnod, cafodd 4,752 o bobl ifanc brofiad gwaith drwy gyfrwng y Rhaglen ehangach GO Wales.



- Mae 119 o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn cyfleoedd masnachu prawf o dan y Rhaglen Blas ar Fenter yn ardaloedd Blaenau'r Cymoedd a Môn Menai.

## Cam 8:

### Cefnogi pobl ifanc i fod yn hunangyflogedig

- Mae Busnes Cymru'n darparu un man cyswllt ar gyfer busnesau ac entrepreneuriaid i dderbyn cyngor a chefnogaeth gan sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae modd cael ato drwy gyfrwng tri phrif sianel: ar-lein ar [www.business.wales.gov.uk](http://www.business.wales.gov.uk) a'i bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol; drwy linell gymorth ffôn benodol (03000 6 03000); a thrwy gyfrwng rhwydwaith o ganolfannau ar hyd a lled Cymru.
- Mae Gwasanaeth Cychwyn Busnes Busnes Cymru Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth, gweithdai, cyngor a chefnogaeth i entrepreneuriaid potensial (yn cynnwys cefnogaeth i raddedigion). Yn ystod y flwyddyn defnyddiodd 1,290 o bobl ifanc dan 25 oed y gwasanaeth Cychwyn Busnes; cyfanswm o 6,057 dros 5 mlynedd Cynllun Gweithredu IE.
- Ym mis Awst 2015, lansiodd Busnes Cymru y gwasanaeth cefnogi Busnes ar-lein (**BOSS**) sy'n darparu cyrsiau modiwlaid ar-lein i unigolion sy'n ystyried cychwyn busnes. Bydd hwn yn cael ei hyrwyddo drwy gyfrwng sianelau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol fel ffordd i wella dealltwriaeth pobl ifanc o gychwyn busnes.
- I'r rhai sy'n ystyried cychwyn menter gymdeithasol, yn bodoli ochr yn ochr â Busnes Cymru mae Busnes Cymdeithasol Cymru sy'n darparu cefnogaeth a chyngor penodol i'r sector. ([www.businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/](http://www.businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/))
- Roedd Bwrsari Entrepreneuriaid Ifanc Twf Swyddi Cymru ar gael i bobl ifanc di-waith rhwng 16 a 24 oed oedd yn cychwyn busnes hyd at fis Mawrth 2015. Eleni cafodd 95 bwrsari arall eu dyfarnu.
- Mae cynllun Lwfans Menter Newydd (NEA) yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn cynnig mentora cyfyngedig a lwfans ar gyfer unigolion sy'n derbyn Lwfans Ceiswyr Gwaith ac am sefydlu busnes. Mae cyfranogwyr NEA hefyd yn gallu cael mynediad i wasanaeth Cychwyn Busnes Llywodraeth Cymru.
- Ym mis Hydref 2013 cafodd 'Benthyciadau Cychwyn Busnes' sy'n cael eu cyllido gan Lywodraeth y DU eu cyflwyno yng Nghymru. Caiff y benthyciadau eu gweinyddu drwy'r rhwydwaith darparwyr Cychwyn Busnes Busnes Cymru presennol a sefydliadau fel Ymddiriedolaeth y Tywysog ac mae'n caniatáu i gleientiaid gael gafael ar fenthyciadau, cyngor ar fusnes a chefnogaeth barhaus. Hyd yma mae dros £7.6m wedi cael ei fuddsoddi mewn 1,156 busnes sy'n cychwyn yng Nghymru, sy'n cyfateb y 1 busnes yn cael ei gefnogi bob dydd. Mae 14% o'r benthyciadau wedi eu dyfarnu i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed, gyda 51% o'r rhain heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Cafodd 25% eu dyfarnu i'r grŵp oedran 25-30, sy'n golygu bod 39% o'r dyfarniad wedi ei roi i rai dan 30 oed.

- Mae cynlluniau bwrsari lleol hefyd wedi cael eu sefydlu megis Cynllun Bwrsari'r Fro wedi ei gyllido gan Sefydliad Waterloo a Chyngor Bro Morgannwg i ddarparu bwrsari o hyd at £3,000 i unigolion a grwpiau o bobl ifanc rhwng 16 a 30 oed sy'n bwriadu cychwyn busnes neu fenter cymdeithasol newydd ym Mro Morgannwg. Mae'r bwrsari wedi cefnogi 26 o entrepreneuriaid ifanc eleni ac mae'n hyrwyddo amodau fydd yn helpu pobl ifanc i roi eu syniadau ar waith. Yn ogystal â'r bwrsari, mae cleientiaid yn derbyn gweithdai busnes, cyngor a chefnogaeth gan arbenigwyr i ddatblygu eu syniadau busnes.
- Cafodd y gronfa Hedyn Abertawe ei lansio ym mis Mehefin i helpu pobl ifanc symud syniadau ymlaen o fod yn ddiddordeb academiaidd i realiti sefydlu busnes bach, gyda mentora a grant o hyd at £500. Mae'r gronfa'n cael ei reoli gan Goleg Gŵyr Abertawe, ac mae wedi ceisio buddsoddiad gan y sector preifat i gefnogi'r bobl ifanc hyn.
- Mae Prosiect EFFECT Sirolli yn agwedd llawr gwlad tuag at adeiladu menter mewn cymunedau lleol a chefnogi cychwyn busnesau newydd. Mae model EFFECT yn argymhell defnyddio hwylusydd menter yn gweithio yn y gymuned i weithio gydag unigolion i hyrwyddo diwylliant menter ac i annog hunangyflogaeth fel llwybr gyrrfa. Mae'r model wedi cael ei gyflwyno ym Mlaenau Gwent, Merthyr, Torfaen a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae 375 o unigolion wedi cael eu cefnogi gan fodel EFFECT, gydag 15 ohonynt dan 25 oed.
- Mae Rhaglen Fenter Ymddiriedolaeth y Tywysog yn cefnogi pobl ifanc ddi-waith 18-30 oed i weld a yw eu syniadau busnes yn hyfyrw ac ai hunangyflogaeth yw'r opsiwn cywir iddyn nhw. Mae 328 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn y Rhaglen Ymchwilio i Fenter dros bedwar diwrnod.
- Ers cychwyn ei waith yn 2002 mae UnLtd wedi nodi a chefnogi dros 700 o entrepreneuriaid cymdeithasol yng Nghymru. Yn dilyn adolygiad diweddar a chyhoeddi ei strategaeth 'Going Mainstream' mae UnLtd wedi cadarnhau ei fwriad i barhau i gefnogi entrepreneuriaid cymdeithasol gyda photensial i gyflawni'r effaith gorau. Yn 2016-17 bydd UnLtd yn buddsoddi tua £100,000.

## **Cam 9:**

### **Canolbwyntio gwasanaethau cymorth ar fusnesau newydd â photensial mawr, yn enwedig mewn sectorau blaenoriaeth allweddol ac ymysg graddedigion**

- Mae'r pencampwyr entrepreneuriaeth yn gwella cydlynid i fyfyrwyr i ddarparu llwybr clir i'r rhai sydd â diddordeb mewn cymryd y cam nesaf i gychwyn busnes gan sicrhau cyfeirio amserol a pherthnasol at gefnogaeth Llywodraeth Cymru.
- Mae Bwrsari Cychwyn Busnes Busnes Cymru ar gael i ddarparu cefnogaeth wedi'i dargedu i fusnesau i fynd i'r afael â rhwystrau gwirioneddol i dwf a chreu swyddi, ac i alluogi'r rhai sydd â photensial am dwf sylweddol wrth greu cyflogaeth gwerth uchel.

- Cyllidodd yr UE wasanaeth cefnogi twf uchel Busnes Cymru a chafodd y Rhaglen Cyflymu Twf ei lansio ym mis Ebrill 2015 ac mae wrthi'n recriwtio busnesau cyn ac ar ôl cychwyn sydd â'r uchelgais i dyfu'n sylweddol. Mae'r Rhaglen yn ceisio creu dros 1,000 o swyddi dros y tair blynedd nesaf ac mae'n darparu hyfforddwyr sydd â hanes o ddarparu twf uchel, yn seiliedig ar yr athroniaeth mai'r bobl orau i roi cyngor i entrepreneuriaid yw entrepreneuriaid.
- Mae Sefydliad Alacrity yn gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Wesley Clover a'r buddsoddwyr preifat Sefydliad Waterloo ac Andrew Probert. Mae'r Sefydliad yn darparu hyfforddiant busnes ymarferol a mentora i raddedigion er mwyn iddynt allu datblygu fel entrepreneuriaid a lansio eu cwmni technoleg eu hunain yn y DU sy'n cael ei yrru gan y galw. Hyd yma mae 5 cwmni technoleg newydd wedi cael eu creu yng Nghymru, gyda 15 o raddedigion yn rhan o hynny.
- Cynhaliwyd y trydydd Penwythnos Cychwyn Busnes yn Abertawe ym mis Tachwedd 2015 gan annog 70 o ddarpar entrepreneuriaid o wahanol ddisgyblaethau i weithio gyda'i gilydd i ffurfio 8 cwmni technegol newydd dros gyfnod o 54 awr. Aeth y tîm buddugol ymlaen i'r Global Start up Battle.
- Mae'r Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (PTG) yn parhau i ddatblygu cydweithio rhwng busnes, sefydliad academaidd a chydymaith sydd newydd gymhwysu. Innovate UK sy'n rheoli'r cwmni, ac mae'n enghraifft o gydweithio yn seiliedig ar anghenion busnes sydd wedi eu diffinio'n glir.

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng Innovate UK a Llywodraeth Cymru i ddarparu PTGau yng Nghymru yn ei le, yn rhedeg o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2018. Dros gyfnod y Memorandwm diwethaf cwblhaodd dros 70 o gwmnïau Cymreig brosiectau PTG gan greu dros 200 o swyddi newydd o ganlyniad. Aeth llawer o'r swyddi hyn yn uniongyrchol i'r graddedigion oedd yn rhan o'r PTG, gan gynrychioli swyddi o well ansawdd a chyflog uwch.

- Mae Canolfan Arloesi Menter Cymru (ICE Cymru) yng Nghaerffili yn darparu cefnogaeth ar gyfer cymuned o dros 100 o entrepreneuriaid. Bydd y gefnogaeth a ddaw drwy ICE Cymru - ICE 50, yn darparu 50 busnes newydd gyda pecyn wedi'i gyllido'n llawn yn cynnwys desg llawn-amser, rhaglen fentora wedi'i theilwra, gweithdai creadigol, cysylltiad ffôn a gwe cyflym iawn a chefnogaeth un i un am 12 mis. Mae hefyd yn rhan o gyflymydd mewn partneriaeth â Busnes Cymru yn cynnig cefnogaeth arbennig ar gyfer syniadau busnes sydd â photensial mawr i dyfu. Cyllidir y rhaglen ICE 50 gan Ymddiriedolaeth Fairwood, Llywodraeth Cymru, Banc Lloyds a Grŵp WCR.

Mae ICE Cymru fel sefydliad yn cefnogi pobl ifanc gyda gweithgareddau cysgodi entrepreneuriaid, heriau syniadau dan glo, beirniadu cystadlaethau mewn ysgolion lleol a chefnogaeth drwy Syniadau Mawr Cymru.

## Cam 10:

### Tynnu ar brofiad ac arbenigedd y gymuned fusnes i gefnogi entrepreneuriaid ifanc

- Mae'r gwasanaeth Mentoriaid Busnes wedi bod yn gweithredu ers Hydref 2012 gyda nifer sylweddol o Fentoriaid a Mentoreion wedi cael eu recriwtio a'u paru. Caiff y gwasanaeth ei gyflwyno drwy'r gwasanaeth Busnes Cymru ehangach er mwyn sicrhau bod gan fusnesau yng Nghymru fynediad i linyddau cysylltiedig o gefnogaeth tra'n elwa o'r broses Fentora.
- Mae 51 o bobl ifanc eraill wedi'u cynorthwyo gan fentoriaid gwirfoddol Ymddiriedolaeth y Tywysog i ystyried cychwyn busnes.
- Dan Gadeiryddiaeth Simon Gibson o'r Wesley Clover Corporation, mae tîm o arbenigwyr ac entrepreneuriaid wedi eu penodi i fod yn "'Bencampwyr" i'r Rhaglen Cyflymu Entrepruriaeth Ranbarthol (REAP). Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys: Ashley Cooper, Partneriaid Catalyst Growth; Hayley Parsons, sylfaenydd GoCompare.com; Drew Nelson, IQE; Yr Athro Dylan Jones-Evans, Prifysgol Gorllewin Lloegr; Yr Athro Hilary Lappin-Scott, Prifysgol Abertawe; Daniel Mines, Grŵp Admiral a James Taylor, SuperStars.
- Mae 56 model rôl newydd ar gyfer Syniadau Mawr Cymru wedi cael eu hyfforddi eleni i ddarparu gweithdai ysbrydoli a chafodd 24 arall hyfforddiant ar sut i gefnogi entrepreneuriaid ifanc. Mae 13 o'r entrepreneuriaid ifanc gymerodd ran yn Her Syniadau Mawr Cymru 2013 hefyd wedi derbyn hyfforddiant i weithredu fel llysgenhadon i ysbrydoli pobl ifanc mewn digwyddiadau a chystadlaethau.
- Cafodd Her Syniadau Mawr Cymru ei dylunio a'i harwain gan entrepreneuriaid dan arweiniad James Taylor, Llysgennad Her a Chadeirydd Panel Entrepruriaeth Cymru. Cafodd y rhai fu'n cymryd rhan hyfforddiant gan yr entrepreneuriaid yn dilyn bwt camp a sesiynau ystafell fwrdd dilynol. Derbyniodd yr entrepreneuriaid ifanc addewidion hefyd oedd yn cael eu ceisio gan y sector preifat a'r trydydd sector.
- Mae 31 o entrepreneuriaid ifanc hefyd wedi cael profiadau cysgodi entrepreneuriaeth yn uniongyrchol gydag entrepreneuriaid drwy Syniadau Mawr Cymru.

## Ymbaratoi:

Cam	Allbynnau	Targedau 5 mlynedd	Cynnydd Medi 2010 – Awst 2015
7	Pobl ifanc yn mynychu digwyddiadau Syniadau Mawr	1,000	4,733
8	Pobl ifanc yn derbyn cymorth cychwyn busnes	3,500	6,057
9	Nifer y bwrsariau ariannol wedi'u dyfarnu	250	215 o raddedigion / 422 TSC*
9	Graddedigion yn derbyn cymorth cychwyn busnes	1,500	1,901
10	Cyfleoedd mentora i bobl ifanc	150	361
<b>Effaith</b>			
	Proffil pobl ifanc 18-24 oed sy'n weithgar yn entrepreneuriaid yn gyson uwch na chyfartaledd y DU	Cadw uwchlaw cyfartaledd y DU	Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang (GEM) 2014 Cymru 5.9% DU 6.3%
	Proffil cwmnïau newydd gan raddedigion sy'n goroesi am 3 blynedd fel % o boblogaeth y DU	Cadw uwchlaw cyfartaledd y DU	HEBCIS** 2014 Cymru 10.9 Poblogaeth y DU 5%
	% y cwmnïau newydd gan raddedigion fel % o boblogaeth y DU	Cadw uwchlaw cyfartaledd y DU	HEBCIS** 2014 Cymru 7.3 % Poblogaeth y DU 5%
<b>Cerrig Milltir Allweddol</b>			
	Sefydlu Fframwaith Mentora Busnes Gwirfoddol	Ebrill 2011	Lansiwyd fframwaith yn Hydref 2012
	Digwyddiadau peilot Syniadau Mawr Cymru	Medi 2011	Peilot wedi'i gwblhau a'i ymgorffori yn y Gwasanaethau Entrepreneuriaeth Ieuenctid

\*Bwrsariau Twf Swyddi Cymru

\*\*Arolwg Rhyngweithio Busnes a Chymuned Addysg Uwch.

# Mesur Llwyddiant

## Panel Cynllun Gweithredu IE

Sefydlwyd Panel Cynllun Gweithredu IE yn 2011 i dderbyn y diweddaraf ynghylch cynnydd, cynnig cyfarwyddyd ac arbenigedd strategol, chynghori ar y ffordd orau o adeiladu ar yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni. Penodwyd y Panel am gyfnod o ddwy flynedd ac yn ystod y cyfnod hwnnw cytunwyd ar fframwaith ar gyfer gwerthusiad a thrywydd ar gyfer cyflawni.

Yn 2013, cafodd gwaith y Panel IE ei symud ymlaen gan un Partneriaeth Entrepreneuriaeth trosfwaol a benodwyd gan Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am gyfnod o ddwy flynedd. Mae'r panel yn darparu arweiniad ac arbenigedd strategol i Lywodraeth Cymru ar ddatblygiad a darpariaeth yr agenda entrepreneuriaeth yng Nghymru dan Gadeiryddiaeth James Taylor, Rheolwr Gyfarwyddwr Superstars. Mae aelodau'r panel yn cynnwys Hayley Parsons, sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol Go Compare, academyddion yr Athro Paul Hannon a Sue Poole a'r perchennog eiddo Kevin Green. Mae'r Panel wedi cwrdd dair gwaith eleni.

Cafodd James Taylor y wobwr 'Cyfarwyddwr Ifanc' a'r wobwr 'Cyfarwyddwr y Flwyddyn' yn seremoni gwobrau Sefydliad Cyfarwyddwyr y DU yn Llundain ar 24 Hydref 2014. Cafodd James a'r Athro Paul Hannon o Brifysgol Abertawe hefyd eu henwi yn rhestr 2015 Maserati o'r 100 entrepreneur mwyaf llwyddiannus yn y DU ac unigolion sy'n cael eu hadnabod am roi yn ôl i'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid.

Cafodd Pencampwr Menter Sue Poole o Goleg Gŵyr Abertawe ei henwi yn Addysgwr Menter IOEE ar gyfer 2015. Cafodd y Gwobrau Dathlu Menter eu cynnal gan y Sefydliad Menter ac Entrepreneuriaid (IOEE) a'r Fenter Datblygu Menter Cwmnïau Bach (SFEDI). Mae'r wobwr yn cydnabod unigolyn sydd wedi dangos agwedd fentrus tuag at ddatblygu a darparu sgiliau ac addysg ar fenter ac entrepreneuriaeth, gan ysbrydoli myfyrwyr a'u galluogi i wireddu eu potensial entrepreneuriaid eu hunain.

## Grŵp Swyddogion IE

Caiff cyfrifoldeb dros gamau parthed IE ei rannu ymysg nifer o feysydd yn Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion arwain sydd â chyfrifoldeb penodol dros gamau IE yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn. Mae'r grŵp yn ystyried cynnydd hyd yn hyn, yn nodi meysydd synergedd ac yn trafod y ffordd orau o ymgysylltu â'i gilydd a rhanddeiliaid allanol ar Gynllun Gweithredu IE. Mae grŵp IE hefyd wedi gweithio i ddatblygu'r digwyddiadau Sgwrs Go lawn i symud y strategaeth ymlaen y tu hwnt i'r ddaliadaeth hon.

## Ymchwil Annibynnol

Mae'r arolygon canlynol yn darparu tystiolaeth i amlygu cynnydd IE.

### Newid mewn Agweddau

Mae 56% o bobl ifanc dan 25 oed bellach am weithio i'w hunain a bod yn hunangyflogedig, sy'n gynnydd o'r ffigur o 42% a gafwyd yn 2004 (Arolwg Omnibws Cymru 2014).



## Entrepreneuriaeth Cyfnod Cynnar a Chychwyn Busnes

Mae Adroddiad Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang (GEM) 2014 wedi adrodd gweithgarwch entrepreneuriaidd cyfnod cynnar ymysg pobl ifanc Cymru fel 5.9%; o'i gymharu â chyfradd y DU a adroddir fel 6.3%. Mae entrepreneuriaeth cyfnod cynnar ymysg rhai rhwng 18 a 29 oed wedi codi i 8.4% o gymharu â 7.3% yn y DU.

Mae Arolwg Rhyngweithio Busnes Addysg Uwch (HEBCIS) 2014 yn nodi bod prifysgolion yng Nghymru yn cyfrif am 5% o boblogaeth Addysg Uwch y DU, ond yn cynhyrchu 7.3% o holl raddedigion yn y DU sy'n cychwyn busnes a 10.9% o gwmnïau gweithredol sy'n para 3 blynedd neu fwy.

## Gwerthuso rhaglenni

Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad annibynnol o'r rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid oedd yn cael ei ddarparu gan Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o wasanaethau Entrepreneuriaeth leuenctid; dyfarniadau grant i'r Canolfannau Rhanbarthol mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch; a'r Ganolfan Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Yn ogystal, adolygodd y gwerthusiad gyfraniad Llywodraeth Cymru i IE, yr amgylchedd newidiol a'r mentrau ehangach yn y farchnadfa i annog entrepreneuriaeth. Myfyriodd y gwerthusiad hefyd ar yr argymhellion gafodd eu gwneud yn ystod [Ymchwiliad i Entrepreneuriaeth leuenctid Pwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol yn 2013](#).

Mae'r gwerthusiad wedi cael ei ddefnyddio i hysbysu datblygiad Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid 2016-18 sy'n cael ei gefnogi gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.